Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0496/17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17th Medi 2017

Annwyl John

BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am eich ystyriaeth o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor gyda'r bwriad o ymateb yn gadarnhaol i gynifer ohonynt â phosibl, naill ai drwy welliannau gan y Llywodraeth neu drwy ddulliau eraill, megis darparu canllawiau. Nodir fy ymateb i'r argymhellion unigol isod:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd un Aelod o'r Pwyllgor yn anghytuno.

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil a'i waith craffu manwl ar y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu sefydliadau perthnasol eraill gyda chopi o'r ddogfen wybodaeth.

Rwy'n rhannu dymuniad y Pwyllgor i sicrhau bod pob sefydliad perthnasol, megis gwasanaethau cynghori a chyrff tenantiaid, yn cael copi o'r ddogfen wybodaeth pan gaiff ei rhoi i landlordiaid cymdeithasol. Derbyniaf yr argymhelliad a byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 yn unol â hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

<u>Argymhelliad 3</u>. Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i landlordiaid cymwys ei darparu i bob un o'u tenantiaid perthnasol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan adran 8(3)(a). Er enghraifft, y dyddiadau y bydd y cyfyngiadau a'r diddymiad llawn yn dod i rym.

Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor. Rwy'n rhannu'r pryder na allai rhai tenantiaid fod mor wybodus ag eraill ac rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i nodi'r wybodaeth sylfaenol am effeithiau'r Bil y mae'n rhaid i bob landlord cymdeithasol ei darparu i denantiaid.

<u>Argymhelliad 4.</u> Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gwneud darpariaeth yn y Bil i sicrhau bod landlordiaid cymwys yn cyflawni'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 8(3) i denantiaid yn y ffordd fwyaf priodol a hygyrch i ddiwallu eu hanghenion amrywiol.

Rwy'n gwerthfawrogi pryder y Pwyllgor y dylai'r ddogfen Gwybodaeth i Denantiaid fod ar gael i denantiaid ym mha ffyrdd bynnag sy'n angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion ac rwy'n cytuno â'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod angen gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y Bil gan fod landlordiaid eisoes yn ymgysylltu â'u tenantiaid yn effeithiol iawn. Fel rhan o'r ymgynghoriad a lansiwyd ym mis Gorffennaf ar ddarparu gwybodaeth i denantiaid, cynhwyswyd cwestiwn ar gyfathrebu priodol a hygyrch gyda thenantiaid. Byddaf hefyd yn rhoi cyngor i landlordiaid cymdeithasol ar ledaenu'r wybodaeth os caiff y Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol.

<u>Argymhelliad 5.</u> Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gweithio gyda gwasanaethau cynghori perthnasol i fonitro ac adolygu effaith y Bil ar y galw am wasanaethau gyda'r bwriad o ddarparu cymorth ariannol ychwanegol cyn y diddymu, os bydd yr angen yn codi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaethau cynghori ac yn monitro effaith y Bil.

Nid wyf yn rhagweld yr angen am adnoddau ychwanegol, ond rwy'n fodlon adolygu hyn.

<u>Argymhelliad 6.</u> Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn profi'r ddogfen wybodaeth ddrafft gyda thenantiaid cyn iddi gael ei chwblhau er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben.

Rwy'n rhannu dymuniad y Pwyllgor i sicrhau bod y ddogfen wybodaeth mor eglur â phosibl er mwyn diwallu anghenion tenantiaid a lansiais ymgynghoriad ar y ddogfen ar 19 Gorffennaf.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â thenantiaid i ganfod barn tenantiaid a bydd yn ein hysbysu o'r canlyniadau. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion ac yn diwygio'r ddogfen wybodaeth, fel y bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn addas at y diben.

I gloi, rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor a hoffwn ailadrodd fy niolch i'r Aelodau am eu hystyriaeth fanwl o'r Bil.

Yn gywir

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children